Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund

Rhaglen ReAct

Yr hyn sydd angen i chi ei wybod

gyrfacymru.llyw.cymru | careerswales.gov.wales

Beth yw ReAct?

Mae rhaglen ReAct yn darparu pecyn o gymorth i helpu pobl i ddatblygu sgiliau newydd, goresgyn rhwystrau a gwella eu rhagolygon o ddychwelyd i'r gwaith ar ôl colli eu swyddi. Mae'r rhaglen yn cael ei hariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda Cymru'n Gweithio a ddarperir gan Gyrfa Cymru, y Ganolfan Byd Gwaith a sefydliadau eraill i gyflwyno'r rhaglen.

Beth sydd ar gael?

- Grant galwedigaethol i'ch helpu i gael y sgiliau sydd eu hangen arnoch i ddod o hyd i swydd newydd; uchafswm y grant yw £1500.
- Grant Cymorth Ychwanegol i'ch helpu gyda threuliau megis costau teithio a llety; mewn rhai achosion, efallai y gallwn eich helpu gydag chyfarpar arbennig sydd ei angen arnoch ar gyfer hyfforddiant os ydych yn ystyried bod gennych anabledd neu gyflwr iechyd sy'n cyfyngu ar eich gallu i weithio ac na all y darparwr hyfforddiant helpu. Uchafswm y grant Cymorth Ychwanegol yw £200.
- Help gyda chostau gofal plant cofrestredig pan fyddwch yn hyfforddi. Gall Llywodraeth Cymru dalu hyd at £12 y dydd am 1 plentyn ac £20 y dydd am 2 blentyn neu fwy am uchafswm o 26 wythnos, hyd at uchafswm o £2600.
- Os byddwch yn dod o hyd i swydd newydd, gall Llywodraeth Cymru ddarparu help i'ch cyflogwr newydd ar gyfer eich cyflogau ac unrhyw gostau hyfforddi sy'n gysylltiedig â'r swydd. Gelwir hyn yn Gymorth Recriwtio a Hyfforddi i Gyflogwyr ac mae gwybodaeth bellach ar gael yn **Canlyniadau chwilio | Busnes Cymru (gov.wales).**

Allwch chi wneud cais?

Mae'r tabl isod yn dangos gofynion cymhwystra ReAct a'r dystiolaeth y mae'n rhaid i chi ei darparu i gefnogi eich cais:

Cymhwystra	Tystiolaeth
Yn ddi-waith heb fod yn hwyrach na 12 mis cyn dyddiad y cais am grant ReAct	• Llythyr colli swydd • Llythyr sy'n rhoi Hysbysiad Ffurfiol o Golli Swydd • Llythyr gan gyflogwr neu dystiolaeth arall o golli swydd, er enghraifft e-bost gan gyflogwr
Yn byw yng Nghymru	Tystiolaeth o gyfeiriad, er enghraifft llythyr gan CThEM/yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP)
16+ oed	Tystiolaeth o ddyddiad geni, er enghraifft copi o dystysgrif geni, trwydded yrru
Yr hawl i fyw a gweithio yn y DU	Tystiolaeth o rif Yswiriant Gwladol (NI)

Mae gan y rhaglen reolau eraill y dylech wybod amdanynt:

- Os ydych yn gyfarwyddwr presennol neu'n gyn-gyfarwyddwr neu'n ysgrifennydd presennol neu'n gyn-ysgrifennydd y cwmni lle rydych wedi colli eich swydd ni fyddwch yn gymwys i gael y cymorth
- Os ydych yn gyfarwyddwr presennol neu'n ysgrifennydd cwmni presennol cwmni gweithredol, sy'n masnachu adeg eich cais am grant, efallai na fyddwch yn gymwys i gael grant ReAct.

Mae Tîm ReAct Llywodraeth Cymru yn edrych ar bob cais yn unigol; os ydych yn poeni na allwch wneud cais, bydd cynghorydd Cymru'n Gweithio, gyda'ch caniatâd chi, yn cysylltu â'r Tîm ReAct i ofyn am gyngor ar eich rhan.

Grant hyfforddiant galwedigaethol

Cyn i chi wneud cais

Os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny, mae'n rhaid i chi gysylltu â Cymru'n Gweithio ar 0800 028 4844.

- Rhoddir cyngor ac arweiniad annibynnol i chi gan un o gynghorwyr gyrfa cymwys Cymru'n Gweithio. Bydd y cynghorydd yn trafod eich sefyllfa bersonol, eich hanes, eich profiad, eich cymwysterau a'r sgiliau sydd gennych eisoes. Yna bydd y cynghorydd yn gallu eich cynghori ar sut i gael y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw. Ar ôl i chi siarad â'r cynghorydd, rhoddir Cynllun Gweithredu Gyrfaoedd i chi. Cofnod ysgrifenedig o'ch trafodaeth yw hwn ac mae'n cadarnhau y bydd yr hyfforddiant rydych wedi'i ddewis yn cynyddu eich siawns o ddod o hyd i swydd newydd.

- Chi sy'n penderfynu gyda phwy yr hoffech hyfforddi. Bydd angen i chi wneud yn siŵr bod y darparwr hyfforddiant yn gallu darparu'r hyfforddiant rydych wedi cytuno arno gyda'ch cynghorydd Cymru'n Gweithio.

- Cofiwch fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo pob cais am grant cyn i chi ddechrau hyfforddi a chyn i chi wneud unrhyw daliad, er enghraifft prynu tocyn trên i deithio i gwrs hyfforddi.

- Er mwyn i chi allu gwneud cais am grant ReAct, bydd angen i gynghorydd Cymru'n Gweithio gasglu gwybodaeth gennych. Mae angen y wybodaeth hon i wneud yn siŵr y gallwch wneud cais am y grant ac i roi'r cyngor a'r arweiniad gorau posibl i chi. I gael rhagor o wybodaeth am sut y bydd eich gwybodaeth yn cael ei defnyddio, ei rhannu a'i storio, cyfeiriwch at **hysbysiad preifatrwydd Gyrfa Cymru**.

Gofynnir i chi ddarparu dogfennau hefyd i gadarnhau eich cymhwystra, fel y disgrifiwyd uchod. Gall cynghorydd Cymru'n Gweithio ddweud wrthych pa ddogfennau sydd eu hangen arnoch. Bydd angen i chi anfon eich dogfennau i **react@careerswales.gov.wales**. Ni fyddwn yn gofyn i chi ddarparu unrhyw ddogfennau nad ydynt gennych yn awr na gofyn i chi dreulio amser neu gost ddiangen yn cael gafael arnynt.

Y broses gwneud cais

Mae Tîm ReAct Llywodraeth Cymru yn defnyddio proses gwneud cais ddigidol a bydd y wybodaeth rydych eisoes wedi'i rhoi i'ch cynghorydd Cymru'n Gweithio yn cael ei hanfon yn ddiogel at y Tîm ReAct, a fydd yn ei gwirio. Bydd cynghorydd Cymru'n Gweithio hefyd yn cadarnhau eich bod wedi darparu'r dogfennau sy'n profi y gallwch wneud cais.

Gwyddom na fydd rhai pobl yn gallu gwneud cais am grant ReAct yn ddigidol; yn y rhan fwyaf o achosion, bydd Cymru'n Gweithio yn gallu helpu gyda hyn ond rhowch wybod i ni os oes angen copïau papur o'r ffurflenni cais arnoch.

Ar ôl i Dîm ReAct Llywodraeth Cymru wirio eich cais am y tro cyntaf, a gwneud yn siŵr eich bod yn gallu gwneud cais am grant ReAct, byddant yn anfon e-bost atoch i roi gwybod i chi. Bydd yr e-bost hwn yn rhoi manylion i chi am sut y gallwch wneud cais am unrhyw gymorth ychwanegol i'ch helpu gyda'ch hyfforddiant. Bydd angen i chi anfon y neges e-bost hon ymlaen at eich darparwr/darparwyr hyfforddiant o'ch dewis oherwydd bydd Cynllun Hyfforddiant wedi'i atodi iddi y byddant yn ei lenwi ac yn ei ddychwelyd i Dîm ReAct Llywodraeth Cymru.

Cynllun Hyfforddiant ReAct

Chi sy'n gyfrifol am drefnu i'ch darparwr/darparwyr hyfforddiant lenwi'r ffurflen hon. Mae'r Cynllun Hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth bwysig am y cwrs/cyrsiau hyfforddiant rydych wedi'u dewis, sut a phryd y caiff ei gyflwyno a chostau'r hyfforddiant.

Dylech wneud yn siŵr bod eich darparwr hyfforddiant yn gwybod y gall Llywodraeth Cymru dalu am yr hyfforddiant ond dim ond ar ôl iddo orffen ac nad yw Llywodraeth Cymru'n talu TAW ar hyfforddiant galwedigaethol; os na all eich darparwr hyfforddiant dderbyn yr amodau hyn, cysylltwch â'r Tîm ReAct am gyngor.

Mae angen i chi wybod hefyd:

- Na fydd Llywodraeth Cymru'n gallu ariannu rhai cyrsiau penodol os yw'n annhebygol y byddant yn gwella eich rhagolygon o ddod o hyd i swydd newydd.
- Bod yn rhaid cwblhau cyrsiau hyfforddi o fewn uchafswm o 18 mis o'r dyddiad colli swydd neu ddiweithdra (mae hyn wedi cael ei ymestyn oherwydd Covid-19 ond bydd yn cael ei adolygu wrth i'r sefyllfa ddatblygu, ac mae'n bosibl y bydd yn cael ei leihau i 12 mis unwaith eto).
- Os ydych eisiau dilyn cwrs ar-lein, gwnewch yn siŵr bod gennych y cyfarpar/meddalwedd TG cywir a bod y darparwr hyfforddiant yn gallu eich cefnogi drwy gydol y cwrs, er enghraifft drwy weminar.
- Os oes gan y cwrs o'ch dewis ofynion mynediad, efallai y bydd Llywodraeth Cymru'n gofyn i chi ddarparu tystiolaeth o hyn, er enghraifft tystysgrif.
- Os mai'r darparwr hyfforddiant o'ch dewis yw'r cyflogwr a achosodd i chi golli eich swydd, mae'n bosibl y bydd Llywodraeth Cymru'n gwrthod dyfarnu'r grant.

Cymorth Ychwanegol (treuliau)

Os bydd angen rhywfaint o gymorth ychwanegol arnoch gyda'ch hyfforddiant, bydd angen i chi ddarparu'r wybodaeth hon drwy e-bost i plan.react@gov.wales Dylech ddarparu'r wybodaeth os oes angen i chi wneud cais am help gyda threuliau teithio, llety neu gostau gofal plant sy'n gysylltiedig â'ch hyfforddiant a hefyd os oes gennych anghenion ychwanegol a bod angen cyfarpar arbennig arnoch i wneud y cwrs ond nad yw'r darparwr hyfforddiant yn gallu helpu gyda hyn.

Mae angen i chi wybod hefyd:

- Os yw'n bosibl, dylech deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn i'ch taith fod mor ecogyfeillgar â phosibl.
- Os byddwch yn teithio mewn car, byddwn yn cyfrifo cost eich taith o'ch cartref i'r ganolfan hyfforddi ar sail 15c y filltir.
- Dylech ddewis y llety mwyaf rhesymol o ran prisiau pan fydd angen i chi aros oddi cartref; ni allwn eich helpu gyda chost prydau a diodydd, na'r defnydd o ffonau neu Wi-Fi os bydd rhaid talu am y rhain.
- Bydd Llywodraeth Cymru ond yn gallu cyfrannu at gostau gofal plant os yw'n cael ei ddarparu gan ofalwr plant, meithrinfa, clwb ysgol neu crèche cofrestredig.
- Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r darparwyr hyfforddiant ddarparu'r offer sydd ei angen arnoch i ddilyn y cwrs, e.e. offer.

Os bydd angen unrhyw gymorth arnoch gyda threuliau, mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni cyn i chi ddechrau eich hyfforddiant.

Cofiwch fod yn rhaid i Dîm ReAct Llywodraeth Cymru gymeradwyo pob cais am grant cyn i chi ddechrau eich hyfforddiant a chyn i chi wneud unrhyw daliad, er enghraifft prynu tocyn trên i deithio i gwrs hyfforddi.

Pwysig – Beth sy'n digwydd nesaf?

Ni all Tîm ReAct Llywodraeth Cymru ddechrau prosesu eich cais hyd nes y bydd wedi derbyn yr holl wybodaeth sydd ei hangen arno; mae hyn yn cynnwys eich cais Cymru'n Gweithio, y cynllun(iau) hyfforddiant gan eich darparwr/darparwyr hyfforddiant o'ch dewis a manylion unrhyw gymorth ychwanegol sydd ei angen arnoch. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, o fewn 10 diwrnod gwaith, bydd Tîm ReAct yn:

- Rhoi gwybod i chi drwy e-bost beth yw gwerth y grant ar gyfer hyfforddiant a chrynodeb o'r hyfforddiant a ddyfarnwyd.
- Rhoi gwybod i chi drwy e-bost, os ydych wedi gofyn am help gyda'ch treuliau, bod y grant wedi'i ddyfarnu i chi a sut y gallwch ei hawlio.
- Anfon cadarnhad drwy e-bost i'r darparwr/darparwyr hyfforddiant o'ch dewis i'w hysbysu bod eich grant ReAct wedi'i gymeradwyo. Bydd y tîm yn dweud wrth eich darparwr beth y mae angen ei wneud er mwyn hawlio taliad ar gyfer eich hyfforddiant.

Cyn gynted ag y bydd Llywodraeth Cymru'n eich hysbysu bod eich grant ReAct wedi'i gymeradwyo, gallwch gysylltu â'ch darparwr/darparwyr hyfforddiant i wneud y trefniadau i ddechrau'r hyfforddiant.

Cofiwch fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru gymeradwyo pob cais am grant cyn i chi ddechrau hyfforddi a chyn i chi wneud unrhyw daliad, er enghraifft prynu tocyn trefn i deithio i gwrs hyfforddi.

Mae angen i chi wybod hefyd:

- Y bydd Llywodraeth Cymru'n anfon cofnod presenoldeb at eich darparwr/darparwyr hyfforddiant a gofynnir i chi lofnodi hyn ar ddiwedd pob diwrnod hyfforddi.

- Y bydd Llywodraeth Cymru'n anfon ffurflen at eich darparwr/darparwyr hyfforddiant er mwyn iddynt allu hawlio taliad am eich hyfforddiant. Bydd angen i chi lofnodi'r ffurflen hon ar ddiwedd diwrnod olaf eich cwrs. Os gofynnir i chi lofnodi'r ffurflen cyn hynny, dylech hysbysu'r Tîm ReAct yn Llywodraeth Cymru gyn gynted ag y gallwch.

- Os bydd angen i chi ganslo neu newid dyddiadau'r cwrs, gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'r darparwr/darparwyr hyfforddiant cyn gynted â phosibl. Ni all Llywodraeth Cymru dalu am unrhyw hyfforddiant nad yw'n cael ei gynnal nac am unrhyw ffioedd canslo y bydd gofyn i chi eu talu.

Hysbysiad Preifatrwydd ReAct

Er mwyn i chi gael cymorth gan y rhaglen ReAct (sy'n cael ei ariannu'n rhannol gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop), mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gasglu gwybodaeth gennych. Mae prosesu'r cais hwn yn rhan o'n tasg gyhoeddus i weinyddu'r cyllid a bydd yn rhan o'n contract gyda chi.

Llywodraeth Cymru yw'r rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol byddwch yn eu darparu fel rhan o'ch cais am gyllid.

Mae angen darparu eich data er mwyn i chi allu cymryd rhan yn y rhaglen. Mae'n rhaid i chi ddarparu'r holl wybodaeth y gofynnwn amdani: mae hyn yn cynnwys cwestiynau lle mae 'mae'n well gennyf beidio â dweud' yn opsiwn.

Bydd yr holl wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei storio a'i defnyddio yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data gyfredol (Deddf Diogelu Data a'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)).

Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn esbonio sut y defnyddir y wybodaeth a gasglwyd gennych a phwy fydd yn cael mynediad at y wybodaeth honno.

Gyda phwy y byddwn yn rhannu eich gwybodaeth ac ar gyfer beth y byddan nhw'n defnyddio'r wybodaeth?

Ni fyddwn yn rhannu eich gwybodaeth gydag unrhyw drydydd parti y tu allan i'n sefydliad, ac eithrio fel y nodir isod.

Dylech fod yn ymwybodol y bydd eich gwybodaeth yn cael ei rhannu a'i defnyddio yn y ffyrdd canlynol:

- Bydd Llywodraeth Cymru'n defnyddio ac yn trosglwyddo eich gwybodaeth i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), fel y bo'n briodol, er mwyn:
    - Prosesu eich cais a dyrannu cyllid.
    - Bodloni gofynion adrodd y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer prosiectau sy'n cael eu hariannu gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.
    - Monitro ac adrodd ar nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau/rhaglenni a'r nifer o bobl o wahanol grwpiau sy'n derbyn cymorth (e.e. oedrannau, rhyw ac ethnigrwydd gwahanol).
    - Cynnal elfennau cyllido, cynllunio, monitro ac archwilio hyfforddiant a dysgu.
    - Cynhyrchu cyhoeddiadau ystadegol.
- Byddwn ond yn rhannu gwybodaeth gyda Gyrfa Cymru a'r Ganolfan Byd Gwaith i gefnogi eich cais ac i ddarparu'r cyngor a'r arweiniad gorau sy'n gweddu i'r anghenion chi.
- Gellir rhannu gwybodaeth gydag adrannau eraill Llywodraeth Cymru er mwyn penderfynu ar y cymorth mwyaf addas sydd ar gael i chi.
- Gydag archwilwyr i asesu a yw'r prosiect/rhaglen wedi dilyn y gweithdrefnau cywir.
- I gysylltu eich cofnodion gyda ffynonellau data eraill adrannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU er mwyn hwyluso ymchwil i'r effaith a gafodd y prosiect ar y rhai a gymerodd ran ynddo. Gallai'r ffynonellau data hyn gynnwys y set ddata Canlyniadau Addysg Hydredol, data Gyrfa Cymru, Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, cofnodion a gedwir gan Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM) a'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP), yr Arolwg o'r Gweithlu, yr Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth ac Arolwg yr ESF o'r Bobl a Adawodd;
- I'n helpu i ddeall effeithiolrwydd y cynllun, efallai y byddwn yn rhannu eich manylion cyswllt gyda sefydliadau ymchwil cymeradwy, er mwyn iddynt allu trafod eich profiadau gyda chi. Ni fyddant yn cysylltu â phawb sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Os bydd yr ymchwilwyr yn cysylltu â chi, byddant yn esbonio diben y cyfweliad i chi a rhoddir y dewis i chi beidio cael eich cyfweld. Bydd y sefydliadau ymchwil yn dileu eich manylion cyswllt ar ôl cwblhau'r gwaith ymchwil. Efallai y bydd sefydliadau ymchwil yn cael mynediad at ddata dienw hefyd (fersiynau o'r data nad yw'n datgelu pwy ydych chi) at ddibenion ymchwil, dadansoddi neu fonitro cyfle cyfartal;
- Bydd asiantaethau atal twyll yn ei defnyddio i atal twyll a gwyngalchu arian ac i ddilysu pwy ydych chi. Os canfyddir achos o dwyll, gellir gwrthod rhai gwasanaethau, cyllid neu gyflogaeth i chi yn y dyfodol. Gallwch gael manylion pellach am sut y defnyddir eich gwybodaeth gennym ni a'r asiantaethau atal twyll hyn, a'ch hawliau diogelu data, drwy gysylltu â swyddogdiogeludata@llyw.cymru.

Diogelwch a Storio

Mae Llywodraeth Cymru'n dilyn gweithdrefnau diogelwch llym ar gyfer storio a datgelu gwybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni. O dan Ganllawiau Ewropeaidd, mae'n ofynnol i ni gadw eich manylion am 10 mlynedd ar ôl i'r prosiectau ESF ddod i ben yn 2023 h.y. tan 2033. Pan na fydd angen i ni gadw eich gwybodaeth mwyach, byddwn yn gwneud yn siŵr ein bod yn ei gwaredu'n ddiogel.

Mae'r cyfrifiaduron a'r gweinyddion lle y byddwn yn storio eich gwybodaeth bersonol yn cael eu cadw mewn amgylchedd diogel.

O dan y ddeddfwriaeth data, mae gennych hawl i:

- Gael mynediad at y data personol rydym yn eu prosesu amdanoch chi.
- Cywiro anghywirdebau yn y data hynny.
- Gwrthwynebu i'r data gael eu prosesu neu gyfyngu ar hynny (mewn rhai amgylchiadau).
- Gwneud cais i'ch data gael eu 'dileu' (mewn rhai amgylchiadau).
- Gwneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.

Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office,
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Cheshire,
SK9 5AF

Ffôn: **0303 123 1113 (Llinell Gymorth Cymru)**
0330 414 6421 (Llinell Gymorth y DU)

Ffacs: **01625 524 510**
E-bost: wales@ico.org.uk

Sut i gysylltu â ni

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw amdanoch a'r defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR, cysylltwch â **reactenquiries@llyw.cymru**.

Gallwch gysylltu hefyd â **swyddogdiogeludata@llyw.cymru** os oes gennych bryder ynglŷn â sut mae eich gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu neu gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth.